SAFLE TREFTADAETH Y BYD
Llechi Cymru
Wales Slate
WORLD HERITAGE SITE

**Bwrdd Partneriaeth Safle Treftadaeth y Byd**
**Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru**

unesco
The Slate Landscape of Northwest Wales Inscribed on the World Heritage List in 2021

**Nodiadau cyfarfod: 07.03.2025**

**Ymddiheuriadau:**
Cyng. Medwyn Hughes (Cyngor Gwynedd), Ceri Williams (Castell Penrhyn), Stephen Churchman (Cyngor Cymuned Garndolbenmaen), Andrew Edwards a Gwenan Hine (Prifysgol Bangor), Nia Haf (Cyngor Gwynedd), Llywela Haf Owain (Cyngor Gwynedd)

**Yn bresennol**:
Yr Arglwydd Dafydd Wigley (Cadeirydd), Sioned Williams (Cyngor Gwynedd), , Kate Robert (Cadw, Zoom), Hannah Joyce (Cyngor Gwynedd), Roland Evans (Cyngor Gwynedd), Naomi Jones (Parc Cenedlaethol Eryri, Zoom), Sian Rees (ICOMOS-UK, Zoom), Gareth Jones (Cyngor Gwynedd), Phil Bushby (Amgueddfa Cymru), Christopher Catling (RCAHMW, Zoom) Angharad Tomos (Yr Orsaf), Dafydd Roberts (Partneriaeth Ogwen, Zoom), Elwyn Evans (Cyngor Cymuned Llanfihangel y Pennant, Zoom), Lowri Hedd Vaughan – GwyrddNi, Zoom), Michael Bewick (JW Greaves), Jenny Emmet (Heneb, Zoom), Dafydd Gwyn (Govannon), Dan Amor (Cyngor Gwynedd)

| | |
|---|---|
| **1. Croeso, cyflwyniadau ac ymddiheuriadau**<br><br>• Nodwyd yr ymddiheuriadau a chroesawodd DW bawb gan gynnwys aelodau newydd a gyflwynodd eu hunain<br>• Amlinellodd DW ddiben y Bwrdd Partneriaeth ynghyd â swyddogaethau a chyfrifoldebau'r aelodau | |
| **2. Cofnodion y cyfarfod blaenorol a materion yn codi**<br><br>• Anogwyd aelodau i'n hysbysu petai unrhyw fater yn codi yn ymwneud â chyfathrebu gan Llechi Cymru<br>• **Cam Gweithredu DA:** Cysylltu â'r brifysgol am gyflwyniad pellach ar eu hastudiaeth (effaith y statws STyB ar Iaith)<br>• Diweddariad cryno ar gyfathrebu a chamau gweithredu ynghylch troseddau treftadaeth diweddar. Petai'r aelodau yn clywed am unrhyw ddigwyddiadau yn eu hardaloedd, gofynnwyd iddynt ein hysbysu<br>  - Tudalen newydd ar wefan Llechi Cymru: cliciwch yma<br>• Dogfen Ddiweddariad Mawrth: cliciwch yma | **DA: cysylltu â'r Brifysgol** |
| **3. Crynodeb o swyddogaethau a chyfrifoldebau aelodau'r bwrdd**<br><br>• Rhoddwyd rhagor o fanylion am swyddogaethau a chyfrifoldeb aelodau'r bwrdd, ynghyd â chrynodeb o strwythur rheoli newydd Llechi Cymru<br>• Y Bwrdd Partneriaeth i roi mewnbwn i'r broses o wneud penderfyniadau ar lefel strategol (e.e. sganio'r gorwel, cyfleoedd, risgiau) | |

| | |
|---|---|
| • Grŵp gweithredu i weithio ar lefel weithredol, gydag adrodd rhwng y bwrdd a'r grŵp gweithredu<br>• Gofynnwyd i'r aelodau roi gwybod i ni petai ganddynt awgrymiadau ar gynnwys ar gyfer cyfarfodydd thematig<br>• Crynodeb bras o'r modd y mae prosiectau cymunedol LleCHI LleNI yn ffitio i'r strwythur llywodraethu<br>• Rydym yn dysgu gwersi gan gymunedau o ran yr heriau sy'n ein wynebu, mae gennym gyfrifoldebau tuag at y cymunedau hyn ledled y STyB<br>• Mae'r buddiannau i'r cymunedau hyn o bwysigrwydd allweddol yn yr hyn yr ydym yn ceisio'i gyflawni<br>• Dyma fersiwn newydd o'n strwythur Llywodraethu, a gallwn wneud addasiadau os bydd angen | |
| **4. Trefniadau rheoli risg**<br><br>• Bydd y grŵp gweithredu yn gyfrifol am adnabod risgiau ac adrodd i'r bwrdd<br>• Nid oedd y grŵp gweithredu wedi cyfarfod eto<br>• Gofynnwyd i aelodau'r bwrdd ein hysbysu am unrhyw risgiau a allai godi | |
| **5. Diweddariad STyB**<br><br>**Diweddariad is-grŵp Cadwraeth a Chynllunio** KR<br><br>• Nodwyd cyd-destun y grŵp er budd yr aelodau bwrdd newydd<br>• Llyfryn newydd 'Gofalu am Dirweddau Llechi Cymru' - pam fod llechi yn bwysig a beth y gallwn ei wneud i ofalu am y tirweddau hyn<br>• Trafodwyd y dulliau o gylchredeg y fersiynau digidol (**cliciwch yma** ) a phapur, gan gynnwys:<br>- cylchredeg i grwpiau addysg, is-grwpiau eraill, partneriaid, rhanddeil-iaid<br>- Cylchredeg drwy'r llyfrgelloedd<br>- Arolygiaeth Cadw<br>- Rhaglenni, digwyddiadau a gweithgareddau LleCHI LleNI<br>- Ysgolion<br>- Manteisio ar ddigwyddiadau partneriaid, rhanddeiliaid a sefydliadau eraill<br>- Cyfathrebu / datganiad i'r wasg adeg y cyhoeddi<br>- Presenoldeb ar wefannau Cadw a Llechi Cymru<br>- Gallai Heneb gynorthwyo i gylchredeg **(Cam gweithredu DA)**<br>- Gallai Yr Orsaf gynorthwyo i gylchredeg a gofynnwyd am 20 copi (Gweithred DA)<br>- APCE yn fodlon cynorthwyo i gylchredeg<br>- Roedd yr Awdurdodau Cynllunio yn fodlon cylchredeg rhai copïau<br>- Gallai hyn ffurfio rhan o gyfarfod thematig ar gyfathrebu<br>• Gofynnwyd i'r aelodau roi gwybod i ni am unrhyw ddigwyddiadau neu weithgareddau lle y byddai modd rhannu'r llyfryn<br><br>**Diweddariad is-grŵp Buddion** MB<br><br>• Nodwyd cyd-destun y grŵp er budd yr aelodau bwrdd newydd<br>• Roedd y grŵp yn tyfu<br>• Bu cynnydd sylweddol mewn ymgysylltu cymunedol (yn enwedig o ran y prosiect LleCHI LleNI)<br>• Trafodwyd datblygiadau arfaethedig yn y STyB, troseddau treftadaeth (roedd Heddlu Gogledd Cymru yn bresennol) a'r daith gylchol Llyn Padarn newydd yn y cyfarfod diweddaraf o'r is-grŵp, yn ogystal â thrafodaeth | **DA: cysylltu â Heneb ac AT am y llyfryn** |

| | |
|---|---|
| gydag Eryri Mynydd a Môr ar hyrwyddo'r Dirwedd Llechi fel cyrchfan i ymwelwyr<br><br>Trafodaeth: STyB a hyrwyddo twristiaeth:<br><br>• Cytunwyd wrth reswm bod sgôp i hyrwyddo rhannau o'r STyB (gyda STyB y Cestyll) fel cyrchfannau i ymwelwyr, ond cyn dechrau ar y fenter, rhaid sicrhau bod ein cymunedau yn cael budd o'r amcanion. Dylai fod yn berthynas symbiotig, rhaid cael cydbwysedd<br>• Rhaid i'r amcanion hyn fod yn unol â Chynllun Twristiaeth Cynaliadwy Gwynedd ac Eryri<br>• Gallai'r rhain fod yn sail trafodaeth mewn cyfarfod thematig yn y dyfodol<br>• Awgrymwyd y dylai cynrychiolwyr cymunedol ynghyd â busnesau fod yn rhan o ddylunio mentrau o'r fath<br>• Holwyd sut y gellid mesur y buddiannau dilynol i gymunedau<br>• Codwyd pryderon am yr effaith negyddol ar eiddo rhent, tai<br>• Ar ôl ei hail-agor, byddai'r Amgueddfa Lechi yn gweithredu fel hwb naturiol i'r STyB, ac yn atyniad i ymwelwyr<br>• Codwyd pryderon am effaith amgylcheddol targedu a denu ymwelwyr o dramor | |
| **6. Diweddariad am ariannu** HJ<br><br>**Llewyrch o'r Llechi (wedi'i ariannu gan Lywodraeth y DU)**<br><br>**Hwb Dinorwig**<br>• Yr Amgueddfa Lechi: gwaith ail-ddatblygu yn mynd rhagddo yn dda. Dydd-iau 'Tu ôl i'r llenni' wedi eu trefnu ym mis Mawrth ac Ebrill<br>• Parc Padarn: Gwaith cadwraeth inclein A1 i'w gwblhau yn fuan. Gwaith wedi dechrau ar y Ganolfan Groeso. Caniatâd cynllunio yn ei le ar gyfer sied y Fire Queen a strwythurau Hafod Owen yn Chwarel Vivian<br>• Cais ar y cyd i gronfa Croeso Cymru, Pethau Pwysig gan Barc Padarn a'r Am-gueddfa Lechi<br><br>**Hwb Ogwen**<br>• Neuadd Ogwen: mesurau gwrthsain a sain a goleuo newydd wedi'u gosod, sydd wedi bod o fudd mawr i'r lleoliad<br>• Yr Hen Bost – gwaith wedi dechrau ar y safle<br>• Llwybrau cerdded – gwelliannau amrywiol i Lôn Las Ogwen<br><br>**Hwb Ffestiniog**<br>• Prosiectau Aelwyd yr Urdd, Llwybr Llechwedd a 22/23 Stryd yr Eglwys, yn gwneud cynnydd da<br><br>**Gwelliannau i gyrchfannau**<br>• Llanberis, Blaenau Ffestiniog, Bethesda, Penygroes, Porthmadog a Tywyn, gan gynnwys:<br>- Gweledig brand Llechi Cymru<br>- Strategaeth arwyddion<br>- Ail-wynebu llwybrau cerdded a ffyrdd<br>- Mewnosodiadau llechi mewn llwybrau cerdded<br>- Meinciau clyfar<br><br>**Celf Gyhoeddus**<br>• Blaenau Ffestiniog – murlun Original Roofing Company wedi'i gwblhau | |

| | |
|---|---|
| • Penygroes – cerflun Angharad Pearce Jones<br>• Porthmadog – cerfluniau Howard Bowcott<br>• Tywyn – atgynhyrchiad o wagen lechi a thirlunio<br>• Bethesda – llechi wedi eu cerfio fel rhan o brosiect Yr Hen Bost (i'w gwblhau ar ddiwedd y cytundeb adeiladu)<br>• Llanberis – caniatâd cynllunio wedi'i wrthod, prosiect arall yn cael ei ddatblygu<br><br>**LleCHI LleNI (Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol)**<br>• 3 taith gerdded a 3 darlith cyhoeddus wedi'u cyflwyno, pob un yn llawn ac wedi cael derbyniad da<br>• Mae digwyddiadau a gweithgareddau eraill yn cynnwys:<br>- digwyddiad Llechi'r Enfys (rhan o fis LHDTC+)<br>- Sesiwn i newydd-ddyfodiaid i'r ardal - cyflwyniad i'r Iaith, hanes a mytholeg<br>- Sesiwn yn rhannu hen ffotograffau a thrafod gwaith y ffotograffydd Issac Hughes<br><br>Hefyd:<br><br>• Rhaglen grantiau cymunedol LleCHI LleNI (ceisiadau niferus)<br>• Cwrs Cynefin a Chymuned (grymuso cymunedau i groesawu twristiaeth cynaliadwy cymunedol) i'w gyflwyno gan Gwmni Bro Ffestiniog<br>• Ymgyrch i gyfathrebu negeseuon iechyd a diogelwch i lansio yn yr wythnosau nesaf<br>• Camau cychwynnol prosiectau cadwraeth cymunedol (ardal Ffestiniog) wedi dechrau (gan weithio gyda Heneb: Ymddiriedolaeth Archaeoleg Cymru)<br>• Prosiectau yn gweithio gydag ysgolion lleol wedi dechrau (swyddog Addysg a Sgiliau LleCHI LleNi)<br>• Prosiect Llysgenhadon Llechi Ifanc i lansio ym mis Medi | |
| **Unrhyw Fater Arall**<br><br>• BBC Countryfile 16 Mawrth 2024 - pennod ar STyB Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru<br>• Diolchodd DW staff Llechi Cymru am eu gwaith caled. Yn ogystal diolchodd DW i Nia Jeffreys am ei gwaith fel rhan o'r grŵp hwn, gan nodi y byddwn yn croesawu'r Cyng. Medwyn Hughes yn y cyfarfod nesaf<br>• Byddai taith arbennig y tu ôl i lenni'r Amgueddfa Lechi Genedlaethol yn cael ei gynnig i aelodau Llechi Cymru, gyda dyddiad i'w gylchredeg ar gyfer 3 Ebrill **Cam gweithredu HJ** | **HJ: cylchredeg gwahoddiad i nodi'r dyddiad** |
| **Dyddiad y cyfarfod nesaf**<br><br>• 26 Medi 2025 **Cam gweithredu DA** | **DA: cylchredeg gwahoddiad i nodi'r dyddiad** |